| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **26 Ionawr 2015** |
| **Teitl :** | **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1.Bydd tymor swydd dau o aelodau annibynnol y Pwyllgor sef, Gwilym Ellis Evans a Sam Soysa (y Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol) yn dod i ben ym mis Chwefror eleni. Gan eu bod eisoes wedi gwasanaethu am ddau dymor nid ydynt yn gymwys i gael eu penodi am gyfnod pellach.

2. Y camau fydd angen eu dilyn i benodi aelodau annibynnol newydd fydd:

- Hysbysebu mewn dim llai na dau bapur newydd o fewn ardal yr awdurdod.
- Sefydlu Panel Ymgynghorol.
- Y Panel Ymgynghorol i ystyried y ceisiadau (drwy gyfweliadau y gwneir hyn fel arfer)
- Cyflwyno argymhelliad y Panel i gyfarfod o’r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penodiadau. Mae’r cyfarfod nesaf ar 05/03/15.

3. Mae’r Cyngor llawn wedi dirprwyo’r hawl i’r Swyddog Monitro i sefydlu Panel Ymgynghorol pan fydd lle gwag yn codi. Mae’n rhaid i’r Panel gynnwys dim mwy na phum aelod ac mae’n rhaid i un ohonynt fod yn aelod lleyg (heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol gyda llywodraeth leol) ac un aelod o gyngor cymuned.

4. Y tro diwethaf aelodau’r Panel oedd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd y Pwyllgor Democrataidd, Aelod Cymunedol y Pwyllgor Safonau a dau aelod lleyg.

5. Ystyrir yr ymgeiswyr yn erbyn meini prawf a osodwyd gan y Cyngor pan sefydlwyd y Pwyllgor. Atodir copi o’r meini prawf yma er gwybodaeth.

**Argymhelliad**

6.Gofynnir i aelodau nodi’r wybodaeth uchod a chynnig unrhyw sylwadau ac awgrymiadau yr hoffent eu gwneud ynglŷn â’r broses.